holiadurawdur

Emily Huws

Dyddiad Geni 3 Mawrth 1942

Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?
Rydw i'n dal i fyw yn yr union dŷ lle cefais fy ngeni, sef tyddyn bychan o'r enw Tyddyn Llwyni, ger pentref Cae-athro, Caernarfon.

Ble cawsoch chi eich addysg?
Ysgol Gynradd Waunfawr; Ysgol Ramadeg Caernarfon; Y Coleg Normal, Bangor.

Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?
Casáu gorfod dod adre'n gynnar (oherwydd amser bws) ar ddydd Iau ac felly'n colli stori ddiwedd pnawn.

Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu i fyny?
Pencampwraig reidio ceffylau (!!!).

Beth oedd eich hoff lyfr pan yn blentyn? *Luned Bengoch* gan Elizabeth Watkin Jones.

Beth yw eich hoff ddiddordebau?
Darllen. Cerdded. Magu anifeiliaid. Gweu. Crosio. Nofio.

Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?
Gweld rhywun yn cael hwyl.

Beth sy'n eich gwylltio chi?
Pobl heb barch at Gymru.

Pryd dechreusoch chi feddwl am ysgrifennu?
Pan oeddwn yn y coleg.

Pa un oedd eich llyfr cyntaf?
Gwyliau Rhian yn y Syrcas (llyfr erchyll!).

Ydych chi'n ei chael hi'n hawdd i ysgrifennu?
Ydw – unwaith mae pethau'n glir yn fy mhen.

O ble rydych chi'n cael eich syniadau?
O bobman o'm hamgylch ble bynnag y byddaf, wrth wneud y pethau mae'n rhaid i rywun eu gwneud bob dydd – golchi'r llestri neu fynd â'r ci am dro.

Oes ganddoch chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?
DARLLENWCH!

Oes rhai o'ch cymeriadau wedi eu seilio arnoch chi?
Nac oes.

Pa un yw eich hoff lyfr?
Wmffra.

Pa un yw eich hoff gymeriad?
Rhian Mai (Cyfres Tisio).

Oes unrhyw beth yr hoffech chi ei newid amdanoch eich hunan?
Hoffwn petawn yn llai byrbwyll . . .

Pa raglenni teledu yw eich ffefrynnau?
Cyfresi wedi eu seilio ar lyfrau safonol.

Beth yw eich hoff fwyd?
Brechdan sosej oer efo sôs coch.

Beth sy'n gwneud i chi chwerthin?
Cartwnau.

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
WELSH BOOKS COUNCIL

gwales.com
LLYFRAU AR LEIN BOOKS ONLINE

Enillodd Emily Huws Dlws Mary Vaughan Jones yn 1988 (gwobr a gyflwynir i berson a wnaeth gyfraniad nodedig i faes llyfrau plant yng Nghymru dros gyfnod o flynyddoedd). Mae hi wedi ennill Gwobr Tir na n-Og* bedair gwaith:

1992 Wmffra (Gomer)
1993 'Tisio Tshipsan? (Gomer)
2005 Eco (Cymdeithas Lyfrau Ceredigion)
2006 Carreg Ateb (Cymdeithas Lyfrau Ceredigion)

*Noddir y gwobrau gan Gyngor Llyfrau Cymru a CILIP Cymru

Mae Emily Huws wedi ysgrifennu ymhell dros hanner cant o lyfrau gwreiddiol i blant ac wedi addasu rhai cannoedd o lyfrau eraill o'r Saesneg. Mae nifer o'i llyfrau bellach allan o brint, er eu bod ar gael yn helaeth mewn llyfrgelloedd o hyd. Dyma rai o'r teitlau diweddaraf sy'n dal mewn print:

Eco (Cymdeithas Lyfrau Ceredigion) **£4.99**
Carreg Ateb (Cymdeithas Lyfrau Ceredigion) **£4.99**
Babi Gwyrdd (Cymdeithas Lyfrau Ceredigion) **£4.99**
Ned (Carreg Gwalch) **£4.50**
Nid fy Mai i (Cymdeithas Lyfrau Ceredigion) **£4.99**
Tostyn (Gomer) **£3.95**
Jini Jinjila (Gomer) **£3.99**
Carla (Gomer) **£3.99**
Y Creadur Bach Gloyw (Gomer) **£1.00**